Cymdeithas Ceredigion: Eisteddfod Gadeiriol Flynyddol a Swper Gŵyl Dewi: Nos Sadwrn, 2 Mawrth 2024

Daeth sawl un i Gaffi Emlyn, Tan-y-groes, i ddathlu Gŵyl y Mabsant a mwynhau eisteddfod flynyddol y Gymdeithas. Ar ôl cawl a phwdin cododd Robyn Tomos ar ran y llywydd Gregg Lynn sy'n gwella wedi llawdriniaeth. Cyflwynodd Robyn i'r gynulleidfa ein beirniad profiadol a chraff, Rachel James, aelod o dîm Beca ar y Talwrn, i draddodi ei beirniadaeth ar yr un dasg ar ddeg a osodwyd gan gynnwys y gystadleuaeth am Wobr Goffa Pat Neill.

Am nad oes reidrwydd bellach fod cystadleuwyr yn aelodau o'r Gymdeithas daeth y cyfansoddiadau o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Ac felly, roedd lleoliad yr enillwyr yn wasgaredig hefyd gan gynnwys Caernarfon, yr Wyddgrug, ardal Caerdydd ac Aberystwyth. Ond yn eu plith roedd sawl aelod o'r Gymdeithas. Enillodd Anne Watts, Tyddewi, gystadleuaeth yr englyn sydd wastad yn denu nifer dda o englynwyr brwd a Carol Davies Henllan, llywydd y Gymdeithas y llynedd, y parodi (ar Gwenoliaid gan T. Gwynn Jones). Ar gyfer y brif gystadleuaeth cynigiwyd cadair fach er gof am Pat Neill, ac am y drydedd flwyddyn, roedd myfyriwr o saer coed yng Ngholeg Ceredigion wedi llunio'r gadair yn grefftus i ni - sef Conor Ellis eleni. Uchel oedd y gymeradwyaeth wrth i Philippa Gibson, Pontgarreg, godi i ychwanegu'r wobr hon i'w chasgliad o'r fath gadeiriau cywrain.

Daeth Robyn Tomos â'r noson i'w therfyn wrth ddiolch i Rachel am ei holl waith caled, ac i'r cystadleuwyr, i'r Caffi ac i'r gynulleidfa am ei gwneud hi'n achlysur pleserus dros ben. Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor Sir am gefnogi'r digwyddiad eto eleni. Mae'r nawdd hael a chyson hwn yn angenreidiol inni wrth ei gynnal o flwyddyn i flwyddyn.

Adroddiad gan Howard Williams

Yr Enillwyr

Englyn: Anne Watts, Tyddewi, Sir Benfro
Englyn ysgafn: John Ffrancon Griffiths, Abergele, Conwy.
Telyneg: Judith Morris, Penrhyncoch, Aberystwyth
Cywydd Mawl: Richard Lloyd Jones, Bethel, Caernarfon
Cân ysgafn: Awen Powell, Yr Wyddgrug, Sir Fflint
Triban: Trefor Huw Jones, Pentre'r Eglwys, Pontypridd.
Ysgrifennu/Stori Fer: Catrin Fflûr Huws, Trefechan, Aberystwyth.
Erthygl ar gyfer papur bro: Trefor Huw Jones, Pentre'r Eglwys, Pontypridd.
Parodi: Carol Davies, Trebedw, Llandysul.
Cystadleuaeth Ail Iaith: Suzanne Arnold, Cwrtnewydd, Llanybydder.
Gwobr Pat Neill: Philippa Gibson, Pontgarreg, Llandysul
Cadair Her Judith Morris, Penrhyncoch, Aberystwyth
Cwpan Her Ben Owens. Carys Briddon, Tre'r-ddôl, Ceredigion.